Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 3 (2025 - 2040)

## Arfarniad Cynaliadwyedd (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol)

Adroddiad Cwmpasu

Drafft Ymgynghori: Ionawr 2026

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# Cynnwys

Cynnwys ..... 2
Adran 1.0: Cyflwyniad ..... 3
Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ..... 3
Proses ..... 4
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ..... 4
Y Gymraeg ..... 5
Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, Statws Economaidd-Gymdeithasol, Iechyd a Hawliau Dynol ..... 6
Adran 2.0 Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol ..... 7
Rhyngwladol ..... 7
Cyfarwyddebau'r UE (rhai allweddol): ..... 7
Y Deyrnas Unedig ..... 7
Cymru ..... 8
Rhanbarthol ..... 8
Lleol ..... 9
Adran 3.0: Gwybodaeth Sylfaenol ..... 9
Cyfyngiadau data ..... 10
Adran 4.0: Nodi Materion Cynaliadwyedd ..... 12
Materion ..... 12
Adran 5.0: Amcanion Cynaliadwyedd ..... 23
Amcanion: ..... 23
Cysondeb amcanion a dibenion y Parc Cenedlaethol ..... 29
Cysondeb yr amcanion â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ..... 31
Cysondeb â'r Nodau Llesiant ..... 32
Y berthynas rhwng Amcanion Cynaliadwyedd a'r materion a nodwyd yn Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb AAS (2001/42/EC) ..... 35

# Adran 1.0: Cyflwyniad

## Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.1 Mae Arfarniad Cynaliadwyedd yn ofyniad statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 62(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Pwrpas Arfarniad Cynaliadwyedd yw asesu effeithiau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol polisïau, cynigion a strategaeth gyfansoddiadol y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod penderfyniadau'n cyd-fynd â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel:

"y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant" (ceir disgrifiad mwy cynhwysfawr o'r Ddeddf a'i nodau yn Adran 5).

1.3 Mae canllawiau[1] a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi bod yn rhaid i Arfarniad Cynaliadwyedd integreiddio gofynion y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol. Mae gofynion Cyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC (neu'r Gyfarwyddeb AAS) wedi'u trosi i Gyfraith Cymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gofyn am asesiad ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd; mae hyn yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol.

1.4 Mae Arfarniad Cynaliadwyedd yn broses iteraidd; mae hyn yn golygu y bydd asesiad yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl ar strategaeth a pholisi datblygol i sicrhau bod datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei lywio gan y broses drwyddi draw. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Trydydd Argraffiad, 2020) yn nodi y "bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn bwysig wrth ddangos bod y CDLl yn gadarn, drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy. Bydd yn cyfrannu at gyfiawnhad rhesymegol o bolisïau"[2].

---

[1] Paragraff 4.3, tudalen 63, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (Llywodraeth Cymru, 2020)
[2] Paragraff 4.4, tudalen 63, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (Llywodraeth Cymru, 2020)

## Proses

1.5 Cydrannau’r Arfarniad Cynaliadwyedd:

Dyma gamau Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynlluniau Datblygu Lleol:

- Cwmpasu - gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas;
- Asesu opsiynau strategol y Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a chynhyrchu Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd;
- Asesu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a chynhyrchu Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd;
- Llunio Datganiad Cynaliadwyedd yn nodi sut mae canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi'u hystyried yn y Cynllun terfynol

1.6 Mae'r adroddiad cwmpasu hwn yn ymwneud â'r cam cyntaf. Mae'n cynnwys adolygiad o Bolisïau, Cynlluniau a Rhaglenni sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol; gwybodaeth sylfaenol sy'n disgrifio'r amodau presennol yn y Parc Cenedlaethol; materion cynaliadwyedd y mae'r Parc a'i bobl yn eu hwynebu, ac mae’n sefydlu Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd - set o amcanion y gellir barnu cynaliadwyedd cynigion a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn eu herbyn.

1.7 Mae'r ymgyngoreion a'r broses ymgynghori ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd wedi'u nodi yn y Cytundeb Cyflawni.

1.8 Gellir dod o hyd i amserlen lawn ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3 yn y Cytundeb Cyflawni.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.9 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel y Rheoliadau Cynefinoedd. Yn unol â Rheoliad 63 o'r rheoliadau hynny, rhaid iddo wneud asesiad o'i Gynllun Datblygu Lleol fel mater o gyfraith cyn iddo gael ei roi ar waith. Cyfeirir at yr asesiad hwn yn gyffredin fel 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' neu 'ARhC' ac mae'r rheoliadau'n nodi proses gam-wrth-gam glir y mae'n rhaid ei dilyn.

1.10 Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3 yn cael ei gyflwyno mewn dogfen ar wahân.

## Y Gymraeg

1.11 Rhaid i'r Awdurdod wneud ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau polisi ar y Gymraeg.

1.12 Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 3.26, Argraffiad 12, Gorffennaf 2024) hefyd yn nodi, “Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o’r Gymraeg fel rhan o’r Arfarniad Cynaliadwyedd...” ac y “dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisïau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.” (paragraff 3.27).

1.13 Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2017) – Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu polisïau Cynllun Datblygu Lleol i ddiogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith ac yn nodi mai Arfarniad Cynaliadwyedd yw'r mecanwaith ar gyfer asesu effeithiau ar y Gymraeg, lle nodir y Gymraeg fel blaenoriaeth gan y Cynllun Integredig Sengl lleol.

1.14 Mae'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn cynnwys amcan penodol y gellir asesu effaith amcanion, polisïau a safleoedd ar y Gymraeg a thafodieithoedd lleol yn ei erbyn. Mae'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd hefyd yn gofyn am archwiliad o effeithiau cronnol polisïau a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

1.15 Bydd Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg llawn hefyd yn cael ei gynnal a'i gyflwyno mewn dogfen ar wahân.

1.16 Mae Hysbysiad Cydymffurfio’r Gymraeg yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried sut y gellid llunio polisi newydd (neu sut y gellid newid polisi presennol) fel y byddai'r penderfyniad polisi naill ai;

- yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol, neu
- ddim yn cael effaith andwyol neu’n cael llai o effaith andwyol ar y Gymraeg a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

1.17 Dylai'r penderfyniad polisi hefyd sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r Awdurdod wneud ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau polisi ar y Gymraeg.

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, Statws Economaidd-Gymdeithasol, Iechyd a Hawliau Dynol

1.18 O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i'r Awdurdod asesu sut y gall unrhyw bolisïau ac arferion newydd neu arfaethedig effeithio ar grwpiau gwarchodedig. Wrth asesu'r effaith ar grwpiau gwarchodedig, rhaid i'r Awdurdod ystyried sut y bydd hyn yn effeithio ar ei gyflawniad o ddyletswydd gyffredinol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

1.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i’r Awdurdod, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r manteision o'u harfer mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau'r anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

1.20 Mae Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (AEI) (Cymru) 2025 yn cyflwyno gofyniad statudol i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ymgymryd ag AEI wrth ddatblygu neu adolygu strategaethau, cynlluniau neu bolisïau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar iechyd. Nod y rheoliadau yw ymgorffori ystyriaethau iechyd, gan gynnwys ystyriaethau lles meddyliol a chymdeithasol, mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

1.21 Mae'n anghyfreithlon i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithredu'n groes i’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a rhaid iddynt fodloni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae gan gyrff cyhoeddus hefyd rwymedigaethau i ystyried, dilyn a gweithredu cytundebau hawliau dynol rhyngwladol a lofnodir ac a gadarnheir gan y DU.

1.22 Rhaid i'r Awdurdod allu dangos ei fod wedi talu sylw dyledus i'r meysydd uchod.

1.23 Bydd yr asesiad cyfunol a nodir uchod, ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3, yn cael ei gyflwyno mewn dogfen ar wahân.

# Adran 2.0 Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

2.1 Mae'r Deddfau, Cyfarwyddebau, polisïau, cynlluniau, rhaglenni, adroddiadau ac adolygiadau canlynol wedi'u nodi fel y rhai a fydd yn llywio a hysbysu'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol 3 ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dylid nodi y gall y rhestr hon esblygu wrth i'r Cynllun ddatblygu. Am ddisgrifiad manylach o'r dogfennau a'u perthnasedd i'r Cynllun, cyfeiriwch at Atodiad A.

## Rhyngwladol

- Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy - Fframwaith Byd-eang ar gyfer nodau datblygu cynaliadwy.
- Cytundeb Paris (2015) - Ymrwymiadau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd.
- Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (COP15, 2022) - Targedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth.
- Fframwaith Sendai ar gyfer Lleihau Risg Trychineb (2015–2030) – Egwyddorion gwydnwch trychineb.

## Cyfarwyddebau'r UE (rhai allweddol):

- Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC)
- Y Gyfarwyddeb Adar (2009/147/EC)
- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC)
- Y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (85/337/EEC)
- Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (2000) – Diogelu a rheoli tirweddau.
- Bargen Werdd Ewrop – Nodau niwtraliaeth hinsawdd a chynaliadwyedd.

## Y Deyrnas Unedig

- Deddf yr Amgylchedd 1995 – Yn diffinio dibenion a dyletswydd economaidd-gymdeithasol Parc Cenedlaethol.
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) – Deddfwriaeth graidd ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt.
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 – y gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 – Risg llifogydd a draenio cynaliadwy.

- Tystiolaeth ar gyfer Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3), Crynodeb Cymru (2022) – Blaenoriaethau risg hinsawdd.
- – Cryfhau rheolaeth o ardaloedd gwarchodedig. Cyd-ddatganiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (CBCN) ar Ardaloedd Gwarchodedig (2024)

## Cymru

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) – Strategaeth ofodol a fframwaith polisi cenedlaethol.
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, 2024) – Polisi cynllunio cenedlaethol craidd.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Egwyddor datblygu cynaliadwy a nodau llesiant.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd bioamrywiaeth a thargedau hinsawdd.
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 – Sero net erbyn 2050 a chyllidebau carbon.
- Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024) – Fframwaith addasu cenedlaethol.
- Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 – Rheoli ansawdd aer a seinweddau.
- **Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau)** – Rhai allweddol:
    - NCT 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2025)
    - NCT 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy
    - NCT 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio
    - NCT 18: Trafnidiaeth
    - NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg
- Cyllideb Garbon Sero Net 2 (2021–2025) – Targedau lleihau allyriadau.
- Deddf Amaeth (Cymru) 2023 a Chynllun Ffermio Cynaliadwy 2026 – Rheoli tir yn gynaliadwy.
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019) – Fframwaith cynllunio morol.
- Strategaeth Economi Gylchol Mwy nag Ailgylchu (2021) – Effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff.
- Y Canllawiau Arfer Da: Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll (2025) – Rheoli llygredd golau.

## Rhanbarthol

- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2025–2030) – Blaenoriaethau trafnidiaeth gynaliadwy.
- Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru (2022) – Gweledigaeth ynni sero net.
- Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (CNC) – Gwydnwch ecosystemau ac addasu i'r hinsawdd.
- Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol De-orllewin Cymru (2022) – Sylfaen dystiolaeth risg llifogydd.
- Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru (2022) – Twf economaidd a gwydnwch.

## Lleol

- Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd Sir Benfro (2022) – Blaenoriaethau gwydnwch hinsawdd lleol.
- Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Benfro (2022) – Trawsnewidiad ynni sero net.
- Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro (2024–2028) – Strategaeth twristiaeth adfywiol.
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar gyfer Sir Benfro (2023) – Yr angen am dai fforddiadwy.
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro (2018) – Bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd.
- Cynllun Partneriaeth 2025–2029 (APCAP) – Fframwaith strategol ar gyfer rheoli'r Parc Cenedlaethol.
- Cynllun Llesiant Sir Benfro (2023) – Amcanion llesiant lleol.
- Cynlluniau Rheoli Maethynnau Afonydd Cleddau ac Afon Teifi (2025) – Gofynion o ran niwtraliaeth maethynnau.

# Adran 3.0: Gwybodaeth Sylfaenol

3.1 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn wybodaeth a data meintiol ac ansoddol sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.

3.2 Mae dau ddiben i wybodaeth sylfaenol: mae'n helpu i nodi'r materion y dylai'r Arfarniad Cynaliadwyedd ganolbwyntio arnynt, ac yn darparu meincnod y gellir asesu perfformiad y Cynllun (a chywirdeb unrhyw ragfynegiadau) yn ei erbyn. Yn ogystal â dangos y sefyllfa bresennol, mae'r data sylfaenol yn dangos, lle y bo’n bosibl, y sefyllfa yn y gorffennol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, er mwyn nodi tueddiadau.

3.3 Pennir nodweddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sylfaenol y Parc Cenedlaethol yn Atodiad B. Wrth i'r Arfarniad Cynaliadwyedd symud ymlaen trwy asesu'r cynllun a'r monitro, bydd angen mireinio'r set ddata a gwybodaeth sylfaenol. Bydd angen nodi a/neu gael gafael ar fwy o ddata wedi’i feintioli a data manwl sy'n berthnasol i'r amcanion cynaliadwyedd.

## Cyfyngiadau data

3.4 Mae casglu data sylfaenol ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd yn wynebu tri anhawster:

- Efallai na fydd y data ar gyfer mater dan sylw ar gael neu wedi’i gasglu.

- Amseroldeb data - efallai y bydd yr unig ddata sydd ar gael ar fater yn hen. Fel arall, efallai y bydd data cyfredol ar gael, ond heb setiau data hanesyddol i nodi tueddiadau.

- Y ddaearyddiaeth ar gyfer casglu neu gyhoeddi’r data - y cydraniad daearyddol manylaf y cyhoeddir data ar ei gyfer ar y rhan fwyaf o faterion yw awdurdod lleol neu ward. Prin yw’r setiau data sy'n cael eu cyhoeddi ar gyfer ardaloedd Parc Cenedlaethol. Nid yw hyd yn oed y data cydraniad manylaf sydd ar gael yn gyffredinol (data ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad) yn cwmpasu ardaloedd sy'n cyfateb i ffin y Parc Cenedlaethol. Mae daearyddiaeth data hefyd yn newid dros amser (e.e. y cydraniad manylaf o ddata a gyhoeddwyd ar gyfer Cyfrifiadau 1991, 2001, 2011 a 2021). Felly, mae'n aml yn angenrheidiol defnyddio rhyngosodiadau neu dechnegau amcangyfrif eraill i gynhyrchu data ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, neu ddefnyddio data sy'n disgrifio ardal ehangach.

3.5 Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o'r data a ddefnyddir yn y llinell sylfaen wedi'i gasglu gan gyrff allanol, ac at ddibenion nad ydynt o bosibl yn gysylltiedig â chynaliadwyedd neu asesiadau amgylcheddol.

3.6 Bydd cyfyngiadau'r data'n golygu y bydd goblygiadau i'r casgliadau y gellir eu tynnu o'r llinell sylfaen a'r gwaith o fonitro'r Cynllun a'r Arfarniad. Dylai'r casgliadau hyn felly hefyd gyfeirio at wybodaeth ansoddol a barn a phrofiad arbenigol.

# Adran 4.0: Nodi Materion Cynaliadwyedd

4.1 Defnyddiwyd yr adnoddau canlynol i nodi Materion Cynaliadwyedd:

- Y Polisïau, y Cynlluniau a'r Rhaglenni sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol;
- Y wybodaeth sylfaenol a gasglwyd;
- Profiad swyddogion Awdurdod y Parc Cenedlaethol o faterion a wynebir wrth weithio ar ran yr Awdurdod;
- Monitro Cynllun Datblygu Lleol 2 a'r Arfarniad Cynaliadwyedd dros y 4 blynedd diwethaf.

4.2 Mae'r materion a nodwyd trwy'r broses uchod wedi'u crynhoi isod:

## Mater 1: Effeithiau Newid Hinsawdd

Mae'n debygol y bydd newid hinsawdd yn cael effeithiau sylweddol ar y Parc Cenedlaethol, er bod natur a graddfa'r effeithiau hynny yn ansicr. Mae Amcanestyniadau Newid Hinsawdd y DU yn dangos y byddai Cymru, mewn senario gymedrol, yn gweld cynnydd o 0.5m yn lefel y môr erbyn 2100, gyda senario uchel o 1m. O ganlyniad i hyn byddai ardaloedd arfordirol Cymru yn debygol o ddioddef llifogydd, erydu arfordirol a gwasgfa arfordirol amlach a mwy difrifol. Byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar gynefinoedd a bioamrywiaeth, seilwaith, gan gynnwys y Llwybr Cenedlaethol, a chymunedau presennol. At hynny mae disgwyl i'r wlad brofi glawiad amlach a dwysach, a hafau poethach a sychach sy'n effeithio ar amaethyddiaeth a rheoli tir. Mae angen lliniaru ac addasu i'r hinsawdd sy'n newid. Mae gwella gwydnwch ecolegol yn diogelu'r dirwedd ac yn cynyddu gwydnwch i eithafion tymheredd a llifogydd a thrwy hynny'n gwella lles cymunedol, cymdeithasol ac economaidd.

## Mater 2: Effaith hamdden a thwristiaeth, a datblygiad cysylltiedig

Dylid rhoi pwys mawr ar rôl y Parc Cenedlaethol o ran twristiaeth a gweithgareddau hamdden. Maen nhw'n fuddiol i'r economi leol, ac i'r genedl o ran iechyd a lles. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall fod effeithiau negyddol i'r gweithgareddau hyn gan gynnwys tagfeydd traffig, tarfu oherwydd gweithgareddau fel jet-sgïo, potensial am danau gwyllt o ganlyniad i farbeciws, a mwy o bwysau ar y seilwaith gwasanaeth cyhoeddus. Mae twristiaeth weithiau'n sbardun ar gyfer cynigion datblygu amhriodol yn y Parc Cenedlaethol.

Lle ceir effeithiau negyddol i weithgarwch twristiaeth, gall yr amgylchedd a'r boblogaeth breswyl deimlo'r effeithiau hyn, a gallant leihau ansawdd y profiad twristiaeth ei hun. Cydnabyddir hefyd y gall y diwydiant twristiaeth hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchedd a'r boblogaeth breswyl.

At ddibenion datblygu'r Cynllun Partneriaeth, nodwyd 26 o fannau problemus lle gallai materion godi yn sgil hamdden. Mae rhai o'r materion a nodwyd yn ymwneud â'r defnydd ehangach o leoliad gan y cymunedau sy'n byw yno, e.e. traffig, ac mae rhai'n achosion o wrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddiau hamdden o'r un lleoliad e.e. deifio a physgota. Nodwyd y materion trwy ymgynghoriad mewnol â thîm addysg ac ymgysylltu a Thîm Hawliau Tramwy'r Awdurdod.

## Mater 3: Sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiad

Mae'r diweddariad mapio sensitifrwydd a gwelededd tirwedd i Lywodraeth Cymru gan John Briggs CMLI (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn ystyried nad yw "capasiti" yn nodwedd o dirwedd ac y dylid ystyried gwydnwch tirweddau i newid drwy:

1. asesu gallu tirweddau i addasu i newid tra'n cynnal y manteision maen nhw'n eu darparu i gymdeithas.
2. Sensitifrwydd tirwedd i newid yn wyneb pwysau diffiniedig
3. Pa werthoedd y mae cymdeithas yn eu rhoi ar y dirwedd
4. Faint o newid y mae cymdeithas yn fodlon ei dderbyn

Gall modelu newid tirwedd mewn ymateb i hinsawdd sy'n newid ac adferiad natur hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad a chefnogi cymunedau.

## Mater 4: Dibyniaeth ar geir preifat

Mae Sir Benfro yn ardal wledig sy'n dibynnu'n fawr ar y car preifat ar hyn o bryd. Roedd 86.2% o aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol yn berchen ar o leiaf un car

neu fan yn y cyfrifiad diwethaf (2021), o gymharu ag 80.6% yng Nghymru gyfan. Mae data'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol ar gyfer ocsidau allyriadau Nitrogen a Charbon Monocsid yn dangos cydberthynas gref rhwng allyriadau a lleoliad prif ffyrdd, sy'n awgrymu bod trafnidiaeth ffyrdd yn achosi llygredd yn lleol ac yn fyd-eang. Fodd bynnag, gall y symudiad i gerbydau trydan helpu i fynd i'r afael ag ansawdd aer, yn enwedig o amgylch prif ffyrdd.

Mae presenoldeb nifer fawr o geir, mewn meysydd parcio neu ar ffyrdd, yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer, tirwedd, bioamrywiaeth, a hefyd y profiad hamdden. Gall cynnig dewisiadau amgen cyfyngedig i deithio mewn car preifat gyfrannu at allgáu cymdeithasol i breswylwyr ac ymwelwyr.

## Mater 5: Diogelu'r amgylchedd ffisegol

Mae angen diogelu adnoddau naturiol fel ansawdd aer, cyflenwad ac ansawdd dŵr ac ansawdd pridd. Mae ansawdd aer yn y Parc Cenedlaethol yn gyffredinol uchel er bod yna fannau problemus o ran llygredd sy'n gysylltiedig â thraffig ffyrdd. Mae ansawdd afonydd yn gymedrol yn gyffredinol, ond mae nifer o afonydd y Parc Cenedlaethol a'i ddyfroedd arfordirol wedi'u dosbarthu fel 'mewn perygl' neu 'yn debygol o fod mewn perygl' (o lygredd gwasgaredig a/neu darddle penodol; newid ffisegol a/neu rywogaethau estron) gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Yn ogystal, mewn rhai ardaloedd o Sir Benfro mae modelu cenedlaethol (APIS) yn dangos bod y crynodiad amonia atmosfferig yn uwch na'r lefel gritigol (crynodiad cyfartalog blynyddol o 1ug/m3) ar gyfer cennau a bryoffytau ac felly'n debygol iawn o fod yn achosi difrod i nodweddion arbennig safleoedd gwarchodedig a choetiroedd hynafol yn yr ardaloedd hynny.

Yn gyffredinol, mae ansawdd afonydd wedi'i ddosbarthu fel cymedrol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae materion â blaenoriaeth sy'n effeithio ar ansawdd dŵr yn y Parc yn cynnwys llygredd gwasgaredig a/neu darddle penodol, newid ffisegol a/neu rywogaethau estron.

Effeithir ar ansawdd gan faterion sy'n cynnwys: llygredd gwasgaredig a/neu darddle penodol, newid ffisegol a/neu rywogaethau estron.

Gan fod Afon Cleddau Ddu, Afon Cleddau Wen ac Afon Teifi wedi'u dosbarthu fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), maent hefyd wedi cael eu hasesu ar eu cydymffurfiaeth â thargedau newydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 i leihau'r crynodiad o ffosfforws mewn ACAau ledled Cymru.

Maent yn methu â chyrraedd y targedau ffosfforws llymach hyn. Dangosodd y System Gwybodaeth Ddaearyddol Dosrannu Ffynhonnell (SAGIS) a gynhaliwyd mai'r prif achosion o ffosfforws yn treiddio i afon Cleddau (65% yn Afon Cleddau Wen ac 84% yn Afon Cleddau Ddu) yw dŵr ffo amaethyddol drwy ddefnyddio gwrtaith, tail ac erydiad pridd, a gollyngiadau dŵr gwastraff a dŵr ffo storm. Yn Afon Teifi roedd 30% o'r ffosfforws yn tarddu o ddefnydd tir gwledig, o gymharu â 66% o waith trin dŵr gwastraff. Gall lefelau uchel o ffosfforws arwain at ordyfiant algâu a disbyddu ocsigen gan achosi niwed i ecosystemau dyfrol. Datgelodd asesiad pellach o gydymffurfiaeth ym mis Ionawr 2024, yn erbyn nifer o dargedau ansawdd dŵr eraill, gan gynnwys ocsigen tawdd a chyfanswm amonia/amonia heb ei ïoneiddio, fod Afonydd Cleddau ac Afon Teifi ymysg y rhai a fethodd y nifer fwyaf o dargedau. Mae ansawdd dŵr yn effeithio ar wydnwch ecolegol cyffredinol, bioamrywiaeth, darpariaeth dŵr yfed a gweithgareddau hamdden.

Mae ansawdd dŵr ymdrochi yn y Parc Cenedlaethol wedi'i ddosbarthu'n gyffredinol fel da neu ardderchog, fodd bynnag, mae risg bob amser y gall llygredd, fel arfer o garthffosiaeth neu ffynonellau amaethyddol, gael effaith ar ansawdd yn dibynnu ar amgylchiadau penodol.

Dalgylchoedd Afon Cleddau Ddu ac Afon Cleddau Wen sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyflenwad dŵr cyhoeddus Sir Benfro. Mae'r afonydd hyn wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) sydd â lefel uchel o amddiffyniad amgylcheddol, a all arwain at wrthdaro posibl gyda'r galw am ddŵr.

Tipio anghyfreithlon a sbwriel ar ochr y ffordd ac yn y môr yw'r problemau gwastraff mwyaf sylweddol i'r Parc Cenedlaethol.

O ran ansawdd pridd, mae cyfran uchel o Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (GMA) yn y Parc Cenedlaethol y mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi y dylid ei warchod fel adnodd cyfyngedig ar gyfer y dyfodol. Mae dadansoddiad o Fap 2 y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (DTA) Rhagfynegol yn dangos bod dros 45% (44.59) o'r tir yn dod o dan gategorïau DTA 1 i 3a o gymharu â dim ond 16% (16.2) yng Nghymru gyfan. Gallai datblygiadau yn y dyfodol, newid hinsawdd ac arferion ffermio effeithio ar iechyd pridd. Gall pridd afiach neu ddiraddiedig arwain at golli carbon, erydu pridd, colli pridd a cholli maethynnau.

## Mater 6: Cydbwyso datblygu ynni ag ystyriaethau tirwedd

Mae gan ddyfrffordd Aberdaugleddau ddiwydiant ynni sefydledig, gyda datblygiadau pellach wrthi'n cael eu hadeiladu, gyda chynnydd tebygol yn y datblygiad ynni gwyrdd arfaethedig yn dilyn sefydlu'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn

2023. Er ei fod y tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn bennaf, gallai'r datblygiad hwn gael effaith sylweddol ar dirwedd y Parc oherwydd ei raddfa a'i amlygrwydd, a'r gweithgarwch llongau cysylltiedig. Mae gan Sir Benfro lawer o botensial ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, ar y tir ac ar y môr, gan ddefnyddio ffynonellau ynni gwynt, llanw a thonnau, solar a biomas. Fodd bynnag, gall y datblygiadau hyn gael effeithiau difrifol ar y dirwedd naill ai o ganlyniad i'r cyfleuster cynhyrchu yn uniongyrchol neu gyfleusterau ategol.

## Mater 7: Rôl amaethyddiaeth (a busnesau tir eraill)

Mae amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiedig (fel coedwigaeth) wedi bod yn allweddol wrth lunio tirwedd y Parc Cenedlaethol a gallant barhau i gynnal a gwella'r dirwedd honno a'i hamrywiaeth fiolegol a diwylliannol gysylltiedig. Mae amaethyddiaeth yn Sir Benfro yn gyffredinol ddwys sydd yn aml yn niweidiol, yn enwedig i fioamrywiaeth, safleoedd archaeolegol ac ansawdd dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021). Mae dirywiad cyson busnesau yn y sectorau Amaethyddiaeth a Choedwigaeth yn awgrymu bod yr amodau economaidd presennol yn anodd ar gyfer ffermio a choedwigaeth, gan ei gwneud hi'n anoddach i'r busnesau hyn gyfrannu at wella tirwedd a bioamrywiaeth a chyflawni rôl gynhaliol yn niwylliant a chymunedau'r Parc Cenedlaethol. Bydd newidiadau mewn arferion amaethyddol a rheoli tir amaethyddol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd a pholisi cyllidol esblygol yn ffactor sylweddol a fydd yn effeithio ar dirwedd, gwydnwch rhag llifogydd, gwydnwch ecolegol a lles cymunedol, cymdeithasol ac economaidd y parc cenedlaethol.

Mae amaethyddiaeth yn brif ffynhonnell o allyriadau amonia a llygredd nitradau. Mae rheoli tail gwartheg yn cyfrif am tua 40% o allyriadau amonia. Mae nitrogen hefyd yn cael ei golli o wrteithiau sachau wrth eu defnyddio. Nodi ffynonellau allyriadau lleol yw'r cam cyntaf i dargedu opsiynau lliniaru fel gorchuddio storfeydd slyri.

Mae map priodoli allyriadau amonia amaethyddol (ar gyfer derbynyddion Safleoedd Rhwydwaith Cenedlaethol) yn dangos dwysedd allyriadau canolig ac uchel o'r sector gwartheg yn Sir Benfro[3].

Yn 2021 diddymwyd y Parthau Perygl Nitradau dynodedig drwy gyflwyno'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru). Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan Parth Perygl Nitradau (PPN) Cymru gyfan.

---

[3] Canolfan Ecoleg a Hydroleg NERC, 2015, Asesu a Mynd i'r Afael ag Effeithiau Nitrogen Atmosfferig ar Safleoedd Natura 2000 yng Nghymru
DEFRA, 2018, Cod Arfer Amaethyddol Da ar gyfer Lleihau Allyriadau Amonia

## Mater 8: Dyfodol yr amgylchedd adeiledig

Adlewyrchir natur unigryw amgylchedd adeiledig y Parc Cenedlaethol yn nifer yr adeiladau rhestredig, henebion ac ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd adeiledig yn wynebu pwysau amrywiol: newid hinsawdd a'r tywydd, argaeledd deunyddiau a sgiliau addas i adfer a chynnal adeiladau traddodiadol; datblygiad amhriodol yn effeithio ar leoliad adeiladau hanesyddol a chymeriad aneddiadau; a diogelwch digonol i'r amgylchedd adeiledig y tu allan i ardaloedd cadwraeth. Mae'n bwysig bod adeiladu ac ailddatblygu newydd yn briodol o safbwynt esthetig ac yn bodloni'r safonau uchaf ar gyfer cynaliadwyedd mewn dylunio ac adeiladu.

## Mater 9: Defnydd o'r amgylchedd morol a'i gyflwr

Mae bywyd gwyllt arfordirol, golygfeydd arfordirol a moroedd glân yn allweddol i apêl hamdden y Parc Cenedlaethol. Mae ei arfordir yn ased cadwraeth pwysig ac yn goridor ar gyfer symudiadau rhywogaethau. Mae ffiniau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol, Bae Ceredigion, Môr Hafren a Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn gorgyffwrdd â thua 75% o arfordir y Parc Cenedlaethol. Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn i'r Marc Distyll Cymedrig, ond Parc morol yw hwn, ac mae'r ffactorau sy'n effeithio ar ei agwedd forol yn ystyriaethau perthnasol wrth fynd ar drywydd dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol.

Y prif ffactorau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol o amgylch Sir Benfro yw defnydd tir, gweithgarwch llongau o amgylch Aberdaugleddau a physgota masnachol, ynghyd â'r galw cynyddol am ddyframaethu, ynni adnewyddadwy (mater 6) a hamdden (mater 20), gan gynnwys defnydd amhriodol o longau wedi'u pweru.

## Mater 10: Defnydd o adnoddau domestig a masnachol

Mae'r mater hwn yn ymdrin â'r defnydd o ynni a dŵr - a chynhyrchu gwastraff - mewn gweithgareddau domestig a masnachol. Mae hefyd yn cwmpasu gweithgarwch ecsbloetio adnoddau fel chwarela. Mae'r defnydd o adnoddau yn anochel ar gyfer datblygiad economaidd a chymdeithasol a lles cyffredinol y boblogaeth. Fodd bynnag, mae defnyddio adnoddau'n anghynaliadwy ac aneffeithlon yn effeithio ar yr amgylchedd ffisegol o ran llygredd, straen ar ecosystemau a diraddio'r dirwedd.

## Mater 11: Amddiffyn, hyrwyddo, gwarchod a gwella adnoddau archeolegol a hanesyddol pwysig

Mae dyletswydd ar y parc cenedlaethol i amddiffyn, hyrwyddo, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Mae gan y Parc Cenedlaethol 285 o Henebion Cofrestredig, a dros 10000 o safleoedd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae yna dros 1200 o adeiladau rhestredig a 13 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig. Mae naw ardal Tirwedd Hanesyddol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, ac mae 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol.

## Mater 12: Cynnal a gwella adnoddau biolegol pwysig

Mae gofyniad i gynnal a gwella 13 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, un Warchodfa Natur Leol ac un Parth Cadwraeth Morol. Y dull cam-wrth-gam a’r fframwaith DECCA a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru fydd y dull o ddangos bod y camau wedi'u cymryd tuag at sicrhau budd net i fioamrywiaeth a gwella cysylltedd cynefinoedd a gwydnwch ecolegol.

## Mater 13: Adnoddau daearegol pwysig

Mae 52 o safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (safleoedd o bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol) yn y Parc Cenedlaethol. Mae yna hefyd raglen barhaus i nodi Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol (tua 65 yn y Parc Cenedlaethol).

## Mater 14: Adnoddau tirwedd pwysig

Caiff ardal ei dynodi’n Barc Cenedlaethol yn bennaf oherwydd pwysigrwydd y dirwedd. Mae Parciau Cenedlaethol yn y DU wedi’u dosbarthu gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur fel Categori 5: Tirweddau Gwarchodedig. Diffinnir y rhain fel 'ardal o dir, gydag arfordir a môr fel y bo'n briodol, lle mae’r

rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi cynhyrchu ardal o gymeriad unigryw gyda gwerth esthetig, ecolegol a/neu ddiwylliannol sylweddol, ac yn aml gyda llawer o amrywiaeth fiolegol. Mae diogelu'r rhyngweithio traddodiadol hwn yn hanfodol i ddiogelu, cynnal a datblygiad ardal o'r fath.'[4]

## Mater 15: Yr angen am Dai Fforddiadwy

Mae prisiau tai a rhenti yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch na gweddill Sir Benfro; roedd pris gwerthu canolrifol tai yn y Parc Cenedlaethol yn 2023 dros naw gwaith y cyflog canolrifol. Mae hyn yn gwneud mynediad at dai priodol yn anodd i aelwydydd newydd sy'n ffurfio yn y Parc Cenedlaethol, neu aelwydydd presennol nad yw eu llety presennol bellach yn addas.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) (2023) yn amcangyfrif bod angen uchel am eiddo fforddiadwy ag un ystafell wely. Mae'r AFDL yn amcangyfrif bod angen i 74% o eiddo rhent cymdeithasol newydd yn y Parc Cenedlaethol fod ag un ystafell wely.

## Mater 16: Ansawdd cyfleoedd cyflogaeth

Mae'r swyddi sydd ar gael yn Sir Benfro yn aml ar gyflog isel (roedd dros 20% o weithwyr llawn-amser yn ennill llai na £25,000 y flwyddyn yn 2024) ac yn dymhorol (mae cyfraddau hawlio budd-daliadau'r gaeaf bron ddwywaith y cyfraddau ar gyfer yr haf).

## Mater 17: Mynediad at wasanaethau

Mae cau gwasanaethau lleol a'r pellter teithio i rai gwasanaethau yn golygu y gall mynediad at wasanaethau hanfodol fod yn anodd mewn rhai rhannau o'r Parc Cenedlaethol.

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod dros draean (33.2%) o'r trigolion arferol yn 65 oed a hŷn. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar fynediad at wasanaethau, gan gynnwys:

- Mwy o alw am wasanaethau gofal iechyd ac amseroedd aros hirach

[4] URhGN (1994) Canllawiau ar gyfer Categorïau Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig. Caergrawnt: URhGN

- Addasu trafnidiaeth gyhoeddus i ddarparu ar gyfer teithwyr hŷn; neu'r posibilrwydd o ynysu o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth
- Llai o bobl o oedran gweithio i helpu i ddarparu ar gyfer yr anghenion hyn

## Mater 18: Ail gartrefi a chartrefi gwyliau

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd un o'r cyfraddau uchaf (27.6%[5]) o ddefnydd ail gartrefi/cartrefi gwyliau o'r stoc dai gyffredinol yng Nghymru a Lloegr yn y Parc Cenedlaethol. Mae ymchwil pellach i'r mater hwn gan ddefnyddio data treth gyngor ac ardrethi annomestig yn dangos bod y ffigur hwn yn sylweddol uwch ar gyfer rhai o'r canolfannau yn y Parc Cenedlaethol, er enghraifft, yn Aber-bach, mae cyfran yr ail gartrefi a llety gwyliau yn ~51%, a 46% yn Amroth[6].

Mae hyn yn debygol o effeithio'n negyddol ar fforddiadwyedd tai, a chefnogaeth i gyfleusterau lleol. Mae cartrefi gwyliau hefyd yn elfen bwysig yn economi twristiaeth y Parc Cenedlaethol.

## Mater 19: Defnydd milwrol o'r Parc Cenedlaethol

Mae nifer o safleoedd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y Parc Cenedlaethol, ac mae’r rhain yn achosi problemau o ran aflonyddwch, datblygu a chyfyngu ar fynediad. Ar y llaw arall, mae presenoldeb milwrol wedi amddiffyn ardaloedd mawr rhag ffermio dwys ac felly wedi cael effeithiau cadarnhaol o ran bioamrywiaeth a'r adnodd archeolegol. Mae'r fyddin hefyd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol.

## Mater 20: Hygyrchedd y Parc Cenedlaethol fel adnodd hamdden i bob sector o gymdeithas

Er mwyn i'r Parc Cenedlaethol gyrraedd ei nodau o ran cynhwysiant, mae angen i gyfleoedd i ddefnyddio'r parc at ddibenion hamdden fod ar gael i bob sector o gymdeithas. Mae angen i lety gwasanaeth a llety hunanarlwyo fod ar gael i bobl ar ystod o incymau. Byddai'r cynhwysiant yma’n cael ei fygwth gan bolisïau a fyddai'n symud cynnyrch twristiaeth Sir Benfro tuag at ben uchaf y farchnad.

---

[5] Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011, "Aelwydydd heb breswylydd arferol"

[6] Cyngor Sir Penfro 2025

Mae'r AFDL (2023) yn dangos, yng Nghyfrifiad 2021, fod Sir Benfro wedi cofnodi cyfran ychydig yn uwch o bobl anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb yn 2021 o gymharu â Chymru (22.0% o gymharu â 21.6%). Mae hyn yn gyfystyr â 27,173 o bobl yn y Sir. Mae tua 46.1% o'r bobl hyn sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn wynebu cyfyngiadau mawr ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd gyda'r 53.9% sy'n weddill yn wynebu ychydig o gyfyngiadau ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n debygol mai'r 12,522 o bobl sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb sy'n wynebu cyfyngiadau mawr ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd fydd yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r angen am ddarpariaeth hygyrch ac addasadwy.

## Mater 21: Cyfle'r Parc Cenedlaethol i wella iechyd a lles

Mae Parciau Cenedlaethol yn darparu'r lleoliadau lle gall gweithgareddau sy'n hybu iechyd a lles ddigwydd. Mae'r rhain yn cynnwys manteision 'gweithredol' fel cerdded neu feicio a manteision 'goddefol' fel y rhai a geir trwy 'lonyddwch', golygfeydd ysbrydoledig a chysylltiadau â natur. Mae Parciau Cenedlaethol yn cefnogi'r amgylcheddau o ansawdd da sy'n hanfodol i gynnal aer, dŵr a thir glân, y byddai iechyd dynol corfforol a meddyliol yn dioddef hebddynt.

## Mater 22: Y Gymraeg a nodweddion diwylliannol

Mae pobl ifanc yn allfudo - a mewnfudo o rannau eraill o'r DU - yn effeithio ar nodweddion unigryw cymunedau'r Parc Cenedlaethol. Un enghraifft o sut y gallai hyn ddod i'r amlwg yw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol.

Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y Parc yn gostwng. Yn y cyfrifiad diweddaraf yn 2021, dywedodd 19.4% o'r trigolion arferol eu bod yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â 21.5% yng nghyfrifiad 2011, gostyngiad o 2.1%. Fodd bynnag, mae yna gymunedau yn y Parc Cenedlaethol lle mae hyn yn sylweddol uwch.

Ac eithrio newidiadau yn y defnydd o'r Gymraeg rhwng Cyfrifiadau, mae'n anodd diffinio a mesur elfennau diwylliannol, sy'n amharu ar ymdrechion i nodi a meithrin elfennau unigryw cymunedau'r Parc Cenedlaethol.

## Mater 23: Galw am fwynau

Mae yna alw am fwynau a gloddir, wedi'i sbarduno’n rhannol gan gyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio adnoddau mwynol gwael, ac mae'r Parc Cenedlaethol hwn yn adnodd mwynol cyfoethog. Mae chwareli sydd ar hyn o bryd yn weithredol yn cyrraedd diwedd eu hoes. Er y byddai Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn cynghori yn erbyn echdynnu mwynau o fewn Parciau Cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ers 2000 mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi derbyn chwe chais i ehangu gweithgarwch chwarela ar safleoedd presennol neu wneud gwaith archwilio ar gyfer adnoddau newydd. Ym mis Tachwedd 2025, mae 4 safle chwarel gweithredol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

## Mater 24: Rôl genedlaethol y Parc Cenedlaethol wrth sefydlu ymwybyddiaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'i rinweddau arbennig

Ail bwrpas Parciau Cenedlaethol yw hyrwyddo dealltwriaeth o rinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol, ac mae dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad yn hanfodol i gadwraeth effeithiol y Parc. Y nod yw trosglwyddo'r gwerthoedd a datblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyfrannu at benderfyniadau hyddysg ynghylch sut y gellir gwneud pethau'n fwy cynaliadwy. Mae'r canlyniadau addysgol hyn yn debygol o ddod i’r amlwg drwy newidiadau cynnil mewn ymddygiad, gan ddigwydd dros gyfnodau sylweddol o amser. Felly, mae asesu effaith y cyfleoedd a gynigir gan y Parc Cenedlaethol wrth gyflawni'r nodau hyn yn debygol o fod yn anodd.

# Adran 5.0: Amcanion Cynaliadwyedd

5.1 Mae'r materion a nodwyd yn Adran 4 wedi'u defnyddio i lunio amcanion cynaliadwyedd sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i farnu cynaliadwyedd amcanion a pholisïau Cynllun Datblygu Lleol 3.

5.2 Mae'r tabl isod yn nodi clystyrau cysylltiedig o'r materion a nodwyd yn adran 4. Yn y cofnodion ar gyfer y golofn 'Clwstwr o faterion cysylltiedig', mae'r rhif yn cyfeirio at y mater a nodwyd yn adran 4, a'r testun yn mireinio eu cyd-destun i bennu Amcanion Cynaliadwyedd.

5.3 Bwriad yr amcanion hyn yw nodi cyfarwyddiadau ar gyfer newid yn hytrach na phwyntiau terfyn. O'r herwydd, nid oes unrhyw dargedau wedi'u gosod; y nod yng nghyd-destun Arfarniad Cynaliadwyedd yw gwireddu'r amcan yn llawn. Yna caiff yr amcanion eu profi am gysondeb â dibenion y Parc Cenedlaethol a chyda'i gilydd.

## Amcanion:

| Amcan AC | Clwstwr o faterion cysylltiedig | Cwestiynau i gynorthwyo penderfyniad |
|---|---|---|
| **Cadwraeth** | | |
| Amcan Cynaliadwyedd 1:<br>Gwarchod a gwella tirweddau, morluniau, a'u holl gydrannau (gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol ac archaeoleg) gan gyfeirio at rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol | 1,2, 3,6,7, 8,9,11,12,13,14,19,22, 23, 24 | A yw'n anelu at amddiffyn a gwella tirweddau, morluniau a threfluniau?<br><br>A yw'n gwarchod a/neu wella awyr dywyll?<br><br>A yw'n anelu at warchod neu wella'r amgylchedd hanesyddol?<br><br>A yw'n annog dyluniad da? |
| Amcan Cynaliadwyedd 2:<br>Gwarchod a gwella bioamrywiaeth, | 1, 2, 5, 7,9,12,13,15,24 | A yw'n anelu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth? |

| | | |
|---|---|---|
| gwydnwch ecolegol, cynefinoedd a chysylltedd cynefinoedd o fewn a’r tu allan i safleoedd dynodedig. | | A fyddai effaith ar safleoedd dynodedig? |
| **Cysylltiad a Threftadaeth Ddiwylliannol** | | |
| Amcan Cynaliadwyedd 3:<br>Galluogi trigolion ac ymwelwyr i ddefnyddio’r Parc Cenedlaethol ar gyfer cyfleoedd hamdden corfforol a gwirfoddoli, gan gydbwyso hyn yn erbyn sensitifrwydd amgylcheddol. | 4,21 | A yw'n hyrwyddo adnoddau hamdden hygyrch? E.e. cysylltiadau llwybr troed, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus neu hygyrchedd i'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig<br><br>A yw'n hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli actif? |
| Amcan Cynaliadwyedd 4:<br>Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r asedau archeolegol sy'n cyfrannu at nodweddion diwylliannol cymunedau. | 2,7,8,14,15,17,18,19,22,24 | A yw'n cynnig cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a Thafodieithoedd Sir Benfro, a hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol?<br><br>A yw'n anelu at warchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol?<br><br>A yw'n anelu at amddiffyn cymunedau'r Parc Cenedlaethol rhag datblygiad amhriodol?<br><br>A yw'n anelu at warchod a gwella cyfleusterau cymunedol? |
| Amcan Cynaliadwyedd 5:<br>Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, a gwarchod a gwella tafodieithoedd lleol | 18,22 | A fydd effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg a/neu dafodieithoedd lleol? |
| Amcan Cynaliadwyedd 6: | 2,4,17,21,20 | A yw'n hyrwyddo mynediad at seilwaith gwyrdd, gan gynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| Hybu a chefnogi iechyd a lles meddyliol a chorfforol pobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r Parc Cenedlaethol, gan hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy. | | mannau gwyrdd ar gyfer hamdden?<br><br>A yw'n hwyluso mynediad at wasanaethau allweddol gan gynnwys gofal iechyd?<br><br>A yw'n cefnogi teithio llesol a gwelliannau i ansawdd aer?<br><br>A yw'n anelu at leihau ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd a lles?<br><br>A yw'n gwella cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, ymgysylltu â'r gymuned, neu ryngweithio cymdeithasol? |
| Cymunedau | | |
| Amcan Cynaliadwyedd 7:<br>Hyrwyddo economi gynaliadwy amrywiol sy'n gwarchod ac yn gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol ac yn darparu ystod o gyfleoedd cyflogaeth | 1,2,5,7,9,11,12,14,16 | A yw'n adlewyrchu ymagwedd adfywiol tuag at dwristiaeth?<br><br>A allai gynyddu nifer yr ymwelwyr y tu allan i'r tymor prysur? (Cwtogi ar natur dymhorol llawer o fusnesau lleol)<br><br>A yw'n hyrwyddo defnyddiau darbodus effaith isel/sy'n hyrwyddo economi werdd?<br><br>A oes potensial ar gyfer ystod ehangach o gyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy?<br><br>A fyddai'n gwella bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau manwerthu yn unol ag anghenion newidiol? |

| | | |
|---|---|---|
| Amcan Cynaliadwyedd 8:<br>Gwneud y mwyaf o gyfleoedd datblygu i gynnal cymunedau lleol. | 3,15,16,18 | A yw'n annog darpariaeth tai, gan gynnwys tai fforddiadwy?<br><br>A yw'n annog darpariaeth neu gynnal a gwella cyfleusterau cymunedol?<br><br>A yw'n annog datblygiad economaidd a allai ddod â swyddi i bobl leol?<br><br>A yw'n anelu at fynd i'r afael â'r broblem ail gartrefi a llety gwyliau? |
| Amcan Cynaliadwyedd 9:<br>Mae cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol, cyfleusterau cymdeithasol a darpariaeth manwerthu) yn parhau i ddiwallu anghenion poblogaeth y Parc Cenedlaethol. | 2,3,17,18, 20, 21, 22 | A yw'n anelu at warchod a gwella cyfleusterau cymunedol?<br><br>A yw'n hwyluso mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol? |
| Amcan Cynaliadwyedd 10:<br>Creu cyfleoedd cynhwysol i bawb fyw a gweithio yn y Parc Cenedlaethol a'i fwynhau | 20,21,24 | A yw'n darparu cyfleoedd a fydd yn helpu i gefnogi poblogaeth gytbwys?<br><br>A yw'n ystyried anghenion tai penodol? E.e. pobl anabl, poblogaeth sy'n heneiddio, aelwydydd incwm isel<br><br>A yw'n ystyried nodweddion gwarchodedig?<br><br>A yw'n cynnig cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol** | | |
| Amcan Cynaliadwyedd 11:<br>Lliniaru a lleihau ffactorau sy'n cyfrannu at newid hinsawdd trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn enwedig o drafnidiaeth a defnydd ynni, i gyfrannu at y targed sero net. | 1,2,4, 7, 10 | A yw'n annog defnydd o ynni adnewyddadwy?<br><br>A yw'n annog defnydd effeithlon o adnoddau e.e. wrth ddatblygu'r amgylchedd adeiledig?<br><br>A yw'n lleihau'r angen i deithio neu'n annog cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, neu'n lleihau'r angen i deithio mewn car preifat? |
| Amcan Cynaliadwyedd 12:<br>Addasu i effeithiau newid hinsawdd ac adeiladu gwydnwch ar gyfer cymunedau a bioamrywiaeth, a diogelu iechyd a lles y cyhoedd. | 5, 7, 11,12,13,14, 17 | A yw'n helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd?<br><br>A yw'n debygol o wneud cynefinoedd yn fwy gwydn?<br><br>A fyddai'n osgoi datblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd neu erydu arfordirol? |
| Amcan Cynaliadwyedd 13:<br>Gwella ansawdd aer trwy hyrwyddo datblygiad effaith isel sy'n lleihau'r angen i deithio (yn enwedig mewn car preifat) | 2,4,10 | A yw'n annog patrymau datblygu sy'n lleihau'r angen i deithio?<br><br>A yw'n anelu at annog trafnidiaeth gynaliadwy?<br><br>A yw'n annog ynni adnewyddadwy?<br><br>A yw'n annog defnyddiau darbodus effaith isel? |
| Amcan Cynaliadwyedd 14:<br>Gwarchod a gwella ansawdd afonydd a dyfroedd arfordirol, | 1,2,5,7,9,10,12,14,20 | A yw'n anelu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd dŵr? |

| | | |
|---|---|---|
| ac annog defnydd cynaliadwy ohonynt. | | A yw'n hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau dŵr? |
| Amcan Cynaliadwyedd 15:<br>Gwarchod a gwella ansawdd pridd, gan gynnwys, lle y bo'n bosibl, amddiffyn y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. | 5,7 | A yw'n diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (GMA)?<br><br>A yw'n helpu i leihau'r priddoedd a gollir i arwynebau anhydraidd a lleihau erydiad? |
| Amcan Cynaliadwyedd 16:<br>Mae effeithiau andwyol ecsbloetio mwynau yn y Parc Cenedlaethol yn gostwng o'r lefel bresennol ac mae manteision bioamrywiaeth a thirwedd posibl safleoedd mwynau presennol a chyn-safleoedd mwynau yn cael eu gwireddu a'u cyflawni'n raddol | 3, 5, 12,13,14,23 | A yw'n lleihau'r galw am fwynau trwy annog defnydd effeithlon o adnoddau neu ailgylchu?<br><br>A yw'n gosod gofynion ar gyfer adfer hen safleoedd chwarel sy'n ffafrio bioamrywiaeth a manteision tirwedd? |
| Amcan Cynaliadwyedd 17:<br>Lleihau effeithiau negyddol gwastraff a chefnogi'r trawsnewidiad i economi gylchol | 5,10,12,14 | A yw'n hyrwyddo'r hierarchaeth gwastraff?<br><br>A yw'n hyrwyddo mesurau i leihau gwastraff? |

## Cysondeb amcanion a dibenion y Parc Cenedlaethol

5.4 O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae gan awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ddau ddiben statudol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol; ac
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny

Wrth geisio cyflawni'r dibenion hyn, bydd awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn:

- ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol

5.5 Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r berthynas rhwng y dibenion a dyletswydd a'r amcanion a nodir uchod.

| **Amcan AC / Diben/Dyletswydd** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** | **16** | **17** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓/- | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| annog cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | – | ✓ | – | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | – | ✓ | – | ✓ | ✓ |
| meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol | ✓ | – | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | – | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

✓ Cyson; × Anghyson; 0 Niwtral; - Dim perthynas arwyddocaol

5.6 Mae'r amcanion a nodwyd yn cyd-fynd yn bennaf â dibenion y Parc Cenedlaethol a'i ddyletswydd, ac mae pob un yn berthnasol i o leiaf un o'r tri.

## Cysondeb yr amcanion â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

5.7 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn yr holl waith a wneir gan gyrff cyhoeddus ac yn rhoi gofyniad ar bob corff cyhoeddus i nodi sut y byddant yn datblygu'r 7 nod llesiant a nodir yn y Ddeddf. Fel y fframwaith datblygu cynaliadwy trosfwaol i Gymru, mae'n hanfodol bod arfarniad cynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ystyried y Ddeddf a'i nodau yn llawn. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) hefyd yn ystyried bod yn rhaid i Gynllun Datblygu Lleol cadarn ystyried nodau llesiant[7] y Ddeddf.

5.8 Mae'r tabl canlynol yn archwilio cysondeb a chwmpas Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd a 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

[7] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3), tudalen 166, Tabl 27.

## Cysondeb â'r Nodau Llesiant

| Nodau Llesiant / Amcanion AC | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 5 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 6 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 7 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 8 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 10 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 11 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 12 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 13 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 14 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 15 | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ |
| 16 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ |
| 17 | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ |

5.9 Mae Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn gyson i raddau helaeth â'r Nodau Llesiant, gydag o leiaf 14 o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cyfrannu at y mwyafrif o'r nodau.

5.10 Cysondeb rhwng Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd:

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** (Gwarchod a gwella tirweddau, morluniau, a'r amgylchedd adeiledig/hanesyddol) | | | | | | | | | | |
| 2 (Gwarchod a gwella bioamrywiaeth, gwydnwch ecolegol, cynefinoedd a chysylltedd) | ✓ | | | | | | | | | |
| 3 (Galluogi mynediad i'r Parc Cenedlaethol at ddibenion hamdden a gwirfoddoli) | - | 0 | | | | | | | | |
| 4 (Gwarchod a gwella nodweddion diwylliannol unigryw) | ✓ | ✓ | - | | | | | | | |
| 5 (Hyrwyddo'r Gymraeg a gwarchod tafodieithoedd lleol) | ✓ | - | - | - | | | | | | |
| 6 (Hybu a chefnogi iechyd a lles meddyliol a chorfforol pobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r Parc Cenedlaethol) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| 7 (Hyrwyddo economi gynaliadwy amrywiol) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 8 (Sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu gymaint â phosibl at gynnal cymunedau lleol) | x | x | ✓ | x | ✓ | - | ✓ | | | |
| 9 (Sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn diwallu anghenion y boblogaeth) | x | x | ✓ | x | ✓ | ✓ | - | ✓ | | |
| 10 (Creu cyfleoedd cynhwysol i bawb) | - | - | ✓ | - | - | - | - | - | - | |
| 11 (Lliniaru a lleihau ffactorau sy'n cyfrannu at newid hinsawdd) | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 (Addasu i effeithiau newid hinsawdd ac adeiladu gwydnwch) | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | - | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | | | | | | |
| 13 (Gwella ansawdd aer drwy annog datblygiad effaith isel) | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | | | | | |
| 14 (Gwarchod a gwella ansawdd afonydd a dyfroedd arfordirol) | ✓ | ✓ | - | - | - | - | ✓ | X | 0 | - | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| 15 (Gwarchod a gwella ansawdd pridd) | ✓ | ✓ | - | - | - | - | ✓ | X | X | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| 16 (Lleihau effeithiau andwyol ecsbloetio mwynau) | ✓ | ✓ | - | - | - | ✓ | - | 0 | - | - | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | | |
| 17 (Lleihau effeithiau negyddol gwastraff a chefnogi'r economi gylchol) | ✓ | ✓ | - | - | - | - | ✓ | ✓ | 0 | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |

✓ Cyson; × Anghyson; 0 Niwtral; - Dim perthynas arwyddocaol

Nodiadau ar gyfer amcanion a allai fod yn anghyson:

5.11 Gallai amcanion 8 (Sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu gymaint â phosibl at gynnal cymunedau lleol) a 9 (Sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn diwallu anghenion y boblogaeth) wrthdaro ag amcanion 15 a 14, sy'n ymwneud â chadwraeth, gan y byddai datblygu’n gofyn am adnoddau a thir.

5.12 Gallai amcan 3 (Galluogi mynediad i'r Parc Cenedlaethol at ddibenion hamdden a gwirfoddoli) wrthdaro ag amcan 2 (Gwarchod a gwella bioamrywiaeth, gwydnwch ecolegol, cynefinoedd a chysylltedd) os ceir mwy o aflonyddwch.

## Y berthynas rhwng Amcanion Cynaliadwyedd a'r materion a nodwyd yn Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb AAS (2001/42/EC)

5.13 Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn gofyn am asesiad o'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd mewn perthynas â'r materion yn y tabl isod. Dangosir yr amcanion sy'n cwmpasu pob mater AAS.

| Cyfarwyddeb AAS | Amcan/Amcanion Cynaliadwyedd |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | 1, 2, 12, 16 |
| Poblogaeth | 3, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 12 |
| Iechyd dynol | 3, 6, 9, 12, 13 |
| Ffawna | 1, 2, 15 |
| Fflora | 1, 2, 15 |
| Pridd | 15 |
| Dŵr | 14 |
| Aer | 11, 13, 16 |
| Ffactorau hinsoddol | 11,12,13 |
| Asedau materol | 9,10 |
| Treftadaeth ddiwylliannol (gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol)* | 1,4,5 |
| Tirwedd | 1, 16 |

***Nid yw'r termau hyn wedi'u diffinio'n glir yn y Gyfarwyddeb. Tybir bod 'poblogaeth' yn golygu demograffeg ac ansawdd bywyd; Tybir bod 'asedau materol' yn golygu adnoddau a seilwaith**